

Pris: 50c

# Papur Pawb

Tachwedd 2021 Rhif 473



Dathlu Calan Gaeaf – tud 3

tud 4/5  
Ysgoltud 6  
Ordeinio Gweinidogtud 8  
Atgofion Gohebyddtud 10  
Hwch Ddu Gwta

## Ben ar ben ei ddigon



Mae un o feibion ifanc pentref Tal-y-bont wedi mentro i reoli un o fusnesau pwysigaf y gymuned.

Gyda pherchennog Garej Davmor, Steve Clarke, am roi'r gorau i reoli'r busnes, daeth ei fecanic Ben Bradley i'r adwy a chynnig rhentu'r busnes a bydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb ddechrau Tachwedd.

Dim ond 26 mlwydd oed yw Ben, sydd ar ôl cael ei fagu ym Maesyderi bellach yn byw yn Bow Street. Derbyniodd hyfforddiant fel mecanic yng ngholeg y Drenwydd cyn cael swydd yn Davmor.

Bydd hwn yn dipyn o fenter iddo felly ond caiff gymorth rhai o'i deulu i redeg y busnes.

Bydd ychydig o ail-frandio'r Garej gyda'r Gymraeg a'r ddraig goch yn cael lle amlwg. Ymhlith y datblygiadau newydd mae Ben yn gobeithio gosod gwefrydd trydan.

Un newid arall fydd ymddeoliad Dave Geddes, sydd wedi gwasanaethu'n rhadlon ac effeithiol yn y siop ers dros ugain mlynedd. Dymunwn yn dda iddo ef ac i Ben yn y fenter gyffrous newydd.



## Papur Pawb

### Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins  
(01970) 832560  
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com

### Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

### GOHEBYDDION LLEOL

#### Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont  
832592

#### Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn  
832076

#### Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams  
cat\_yfoel@hotmail.com

#### Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin  
832573

#### Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths  
(01654) 781264

#### Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

#### Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont  
832697

#### Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach  
832773

#### Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont  
832344

#### Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont  
832093

#### Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont  
832448

#### Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

#### Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

#### Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

#### Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;  
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan  
Gymdeithas Papur Pawb.  
Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...  
**www.papurpawb.cymru**  
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwpeflyr (@papurpawb)

## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd  
Helen a Ceri a oedd hefyd yn  
dylunio. Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn  
Rhagfyr fydd Rhian  
(rhian.evans@tiscali.co.uk)  
a Catrin (catrinssj@gmail.com).

Cofiwch gysylltu â golygyddion y  
mis mewn da bryd petai gyda chi  
eitem o newyddion neu stori o  
ddiddordeb lleol.

Y dyddiad cau yw 3 Rhagfyr a bydd  
y papur ar werth o 10 Rhagfyr  
ymlaen.



## Arhosfan bws

Roedd gweld yr arhosfan bws newydd sbon yn glanio oddiar lori a  
chraen ger Ysgol Tal-y-bont yn ddiweddar yn dipyn o sioe. Yn ogystal  
â'r arhosfan newydd mae'r pafin o flaen y safle wedi ei addasu er mwyn  
gwneud hi'n hygyrch i gadeiriau olwyn a phobl ag anawsterau  
ddefnyddio'r bysiau yn hwylus. Braf byddai gweld Traws Cymru yn  
buddsoddi mewn cerbydau ynni gwyrdd yn y dyfodol.

## Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

### Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
**(Un cwrs: £9.95 Dau gwsrs £11.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
**garethwhitelion@outlook.com**

## Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
**Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch  
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys  
Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng  
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

## Dyddiadur

### TACHWEDD

- 12 Cwis 8 Wildfowler**  
**13 Prosiect Bwyd Syriaidd**  
6.30–8.30 Cletwr  
**14 Bethel 10 Richard Lewis**  
**Neuadd Goffa Tal-y-bont**  
10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15 Gweddi**  
Hwyrrol  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth**  
Sul y Cofio (Canon Andrew  
Loat)  
**16 Arlunio Straeon 2–4 Cletwr**  
**18 Merched y Wawr Tal-y-bont**  
**a'r Cylch**  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 7.30 Gweddi**  
Hwyrrol  
**Bingo 7.30 Wildfowler**  
**19 Gadewch i ni Siarad, Galw**  
**Heibio 11–2 Cletwr**  
**21 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30 Philip**  
Davies  
**26 Gweithdy Google Docs 2–3**  
Cletwr  
**Cwis 8 Wildfowler**  
**27 Gweithdy peli hadau gwyllt**  
1.30–3.30 Cletwr  
**28 Bethel 10 Geraint Evans**  
**Eglwys Llangynfelyn yn**  
**Llanfach 2.15 Cymun**  
**Eglwys Sant Mihangel,**  
**Eglwysfach 9.30 Nigel Hardy**  
**Cyfarfod Blynnyddol 3–4**  
Cletwr

### RHAGFYR

- 2 Bingo 7.30 Wildfowler**  
**5 Bethel 10 Seion Gwilym**  
Tudur (Zoom)  
**Rehoboth 2 Gweinidog**  
**10 Cwis 8 Wildfowler**  
**12 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)**

**Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc**  
**a Gweu'**

### Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

### Salon Leri



Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard

10am–7pm  
Llun–Gwener

(01970) 832 674



**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Anwen Jenkins a Geraint James ar enedigaeth mab, Sianco John James. Cyfarchion hefyd i mamgu a dadcu Tynygraig, (Margaret ac Enoc Jenkins) a Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, sy'n hen famgu a dadcu am y tro cyntaf.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Alice a Sannan Morgan, Avalon, Tal-y-bont sydd wedi cael merch fach, chwaer i Lola.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau mawr i Amy Hughes a Jake Jones ar eu dyweddïad. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Aberystwyth.

**Llawdriniaeth**

Gwellhad buan i Lefi Gruffudd, Y Lolfa sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei lygad yn Ysbyty Abergel, ac i Pete Jenkins, Clydfan a gafodd lawdriniaeth ar eu glun yn dilyn damwain beic. Gobeithio eich gweld yn gwibio drwy'r pentref ar ddwy olwyn yn fuan iawn.

**Llongyfarchiadau**

Dymuniadau gorau i Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont ar gwblhau hyfforddiant a phasio arholiadau er mwyn ennill statws cyfrifydd siartredig gyda chwmni BPU yng Nghaerdydd.

**Penblwydd Arbennig**

Gobeithio fod Mrs Jacqui O'Donnell, Maesnant, Tal-y-bont wedi mwynhau ei phenblwydd arbennig yng nghwmni ei theulu yn ystod mis Hydref.

**Cydymdeimlo**

Yn 77 oed bu farw Hugh Rowlands, Erglodd, Taliesin ar ddydd Sadwrn 23ain o Hydref. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Mair, Susan, Barry a'r teulu yn eu colled. Cydymdeimlwn hefyd gyda Enid a Rob Evans, Trem-y-rhos, Bontgoch, ei chwaer a'i frawd yng nghyfraith.

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

# Pobl a Phethe



Osian, Macsen a Bonnie yn chwilio am bwmpen gyda Miss Kate o'r Cylch Meithrin

## Chwilio am bwmpenni

Yn anffodus nid oedd modd cynnal Parti Calan Gaeaf Cylch Meithrin felly penderfynwyd cynnal Helfa Bwmpenni o gwmpas Tal-y-Bont a Chystadlaeth Gwisg Ffansi a Cherfio Pwmpen ar-lein. Ymhlith y buddugwyr yn gystadleuaeth gerfio pwmpen oedd Jessie Jenkins (Dosbarth Derbyn). Enillydd y gystadleuaeth Gwisg Ffansi oedd Osian January-McCann (Blwyddyn 3) yn gwisgo fel Koanashi o'r ffilm 'Spirited Away'.

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Anna Bradley, 1 Maes-y-deri, Tal-y-bont, priod Michael a mam Lauren a Siobhan.

**Symud Tŷ**

Croeso i Orian Hart a Leana Vincent sydd wedi symud i fyw i 3 Tancoed, Tal-y-bont.

Hefyd i Trevor Fryer a Tracey Simpson sydd wedi ymgartrefu yn Heulwen Haf, Tal-y-bont.

**Croeso Adre**

Braf iawn oedd gweld Yvette Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont wedi llwyddo i ymweld â'i theulu am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig. Mae Yvette yn gweithio draw yn Nulyn yn yr Iwerddon.

**Cartref Newydd**

Croeso i Tiffany Evans a Simon Wood sydd newydd ymgartrefu yn Castell Ni, Tal-y-bont (Mertyn gynt).

**Galwad Cynnar**

Braf oedd cael cyfle i wrando ar Iolo Davies, Doleifon ar y raglen radio Galwad Cynnar yn ddiweddar. Mae Iolo yn gweithio fel Rheolwr Maes ym Mhwlpeirian ers 2018.

Bu Iolo yn adrodd ychydig o hanes Pwllpeirian cyn symud ymlaen i egluro ac esbonio bod yna wahanol fathau o brosiectiau ac arbrofion ar waith ym Mhwlpeirian. Mae nifer o'r arbrofion yn cyd weithio gyda'r safle yng Ngogerddan a ceir y cyfle i gymharu tyfiant y planhigion rhwng yr ucheldir (lle mae llai o heintiau) a'r tir isel.

Arbrofir gydag anifeiliaid gwahanol yn pori ar yr ucheldir - ar hyn o bryd mae yna alpacas yn bwydo ar borfa Pwllpeirian.

Bydd adborth yr holl arbrofi a'r ymchwiliadau yn cael ei rannu gyda gymuned amaethyddol.

**Penblwydd Arbennig**

Dymunwn benblwydd hapus arbennig iawn i Barry Morgan, Pantycalch Tal-y-bont.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn gyda Jane Bailey, Troedrhiseiri, Bontgoch, ar farwolaeth diweddar ei thad yn Sir Gaer.





*Calan Gaeaf*



*Efelychu gwaith Yayoi Kusama*



*Cawl pumphen*



*Abrawf Wyddonol*



*Dawns y dail*



*Mesur gyda dail*



*Rowan y rhedwr*



*Celf ar yr iard*



# Ysgol Tal-y-bont

## Calan Gaeaf

Roedd llawer o weithgareddau'n ymwneud â Chalan Gaeaf yn y gwahanol ddosbarthiadau eleni. Roedd Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur yn paratoi cawl pwmpen yn y dosbarth. Roedd llawer o waith wedi bod yn torri'r pwmpenni'n ofalus, eu coginio gan ddilyn rysâit arbennig Chef Morris cyn dod at y blasu, ac roedd yn flasus iawn hefyd!

Roedd blwyddyn 3 a 4 hefyd wedi bod yn brysur yn cynllunio a pharatoi arbrawf wyddonol gan ddefnyddio soda, hylif golchi llestri, lliw bwyd a finegr. Fel y gwelwch o'r llun roedd y canlyniadau'n ddramatig iawn – ych-a-fi.

Cafodd y plant dipyn o hwyl hefyd yn efelychu gwaith Yayoi Kusama. Artist o Siapan yw Yayoi Kusama sy'n enwog dros y byd am ddefnyddio smotiau lliwgar yn ei gwaith. Wele ddetholiad o waith hyfryd artistiaid ifanc y cyfnod sylfaen.



Cawl pumpen

## Yr Hydref

Mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn gyfle gwych i atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd y cynhaeaf ac am y ffordd y mae'r tymhorau'n newid. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau'n cael cyfleoedd i fwynhau'r tywydd mwy a gweld y dail yn disgyn oddi ar y coed. Wele blant y cyfnod sylfaen yn siglo, troelli, ysgwyd a chwyrlio cyn disgyn i'r llawr a throï'n ddail crin.

Roedden nhw hefyd yn hoffi'r weithgaredd o fesur dail oedd wedi disgyn ar yr iard.

## Rangoli

Mae gwneud celf rangoli yn grefft hen iawn o'r India. Fel arfer, bydden nhw'n creu patrymau ar y llawr gan ddefnyddio tywod, reis a blodau i ddatlu gwyliau arbennig fel Diwali. Yn draddodiadol, menywod fyddai'n gwneud rangoli, ond roedd bechgyn a merched Blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau creu'r celf lliwgar ar iard yr ysgol.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rowan am ei lwyddiant diweddar mewn ras Park Run sy'n cael ei gynnal ar fore dydd Sadwrn yn Aberystwyth. Bydd rhaid deffro'n gynnar iawn yn y bore i ddal fyny efo Rowan!

Da iawn i Hedydd hefyd am dynnu 6 llun trawiadol iawn ar gyfer gwahanol categorïau'r Ffotomarathon a drefnwyd gan griw gweithgar Ffoto@ber dros wyliau'r hanner tymor. Roedd hi'n bleser i weld gwaith Hedydd yn hongian yn Oriel Gregynnog yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – tipyn o anrhydedd, da iawn ti.

## Cyngor Ysgol

Mae aelodau y Cyngor Ysgol wedi bod yn gweithio'n galed dros y mis diwethaf yn paratoi gweithgareddau ar gyfer yr hanner tymor nesaf – mwy o wybodaeth i ddilyn. Ond dyma Hedydd a Martha yn cysylltu gyda Swyddog Iechyd a Diogelwch y Sir i dynnu sylw at y perygl sydd i bawb sy'n cerdded i'r ysgol os yw'r draeniau'n llawn a'r dŵr yn sefyll ar yr iard. Mae'r llythyr wedi arwain at lanhau'r draeniau ac er gwaethaf y glaw trwm diweddar, mae'r dŵr wedi llifo'n llawer gwell. Croesi bysedd y bydd hyn yn parhau.



Holi'r Esgob William Morgan

## Mis Hanes Cymru

Cafodd disgyblion yr ysgol gais digon anghyffredin yn ystod mis Hanes Cymru. Ar y cyd gyda'r Llyfrgell Genedlaethol gofynnwyd i blant Blwyddyn 5 a 6 lunio cwestiynau i Pedr ap Llwyd, y Prif Lyfrgellydd eu gofyn i'r Esgob William Morgan. Cafodd y plant cryn dipyn o hwyl yn meddwl am gwestiynau mae'n debyg y cafodd yr Esgob ei herio i feddwl am atebion. Dyma rai o'r cwestiynau!

1. Beth oedd y darn anoddaf am gyfieithu'r Beibl?
2. Beth yw eich hoff stori yn y Beibl?
3. Ydych chi'n meddwl y dylai Cymru fod yn cymryd ffoaduriaid o wledydd eraill?
4. Ydy newid hinsawdd wedi effeithio arnoch chi?
5. Ydych chi'n meddwl bod treulio 10 mlynedd o'ch bywyd yn cyfieithu'r Beibl wedi bod werth y drafferth?
6. Oes gyda chi gysylltiad gyda'r defaid yn y gân Defaid William Morgan?

**James Memorials**

Am  
**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim*

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

**01970 832760**

**TEIARS**  
**HUW LEWIS**

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000  
LLANBED 01570 422221**

**Rhodfa'r Parc**

# Ordeinio Gweinidog newydd Bethel



*Phil Davies, Ysgrifennydd Bethel ar Parchedig Gwilym Tudur, ar ddiwedd y cyfarfod Ordeinio a Sefydlu.*

Mewn oedfa urddasol yng nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth ddydd Sadwrn 30 Hydref fe ordeiniwyd y Parchedig Gwilym Tudur a'i sefydlu yn weinidog newydd ar ofalaeth Bethel Tal-y-bont a Seion Aberystwyth.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Andrew Lenny, cyn weinidog Seion, ar Parchedig Ddr. Alun Tudur, tad Gwilym a gweinidog ei fam eglwys, Ebeneser Caerdydd, oedd yn traddodi'r bregeth. Arweiniwyd y ddefod Ordeinio gan y Parchedig Aled Jones ar ran Coleg yr Annibynwyr Cymraeg.

Oherwydd y cyfyngiadau Covid bu'n rhaid rheoli'r niferoedd ond llenwyd y seddi oedd ar gael gyda theulu a chyfeillion yn ogystal â chynrychiolaeth deilwng o'r ofalaeth, nifer dda o Ebeneser, a llu o weinidogion. Daeth teulu Alex, gwraig Gwilym, yr holl ffordd o Romania i fynychu'r oedfa a chawsant eu swyno gan yr awyrgylch ar canu bendigedig.

Dywedwyd gair o groeso ar ran Bethel gan Phil Davies, ysgrifennydd y capel, ar Parchedig Ddr. Watcyn James, gweinidog Nasareth oedd yn cyfarch ar ran yr eglwys lleol.

Wrth groesawu, cyfeiriodd Phil at y dyddiau cynnar pan wnaeth Azariah Shadrach adael Tal-y-bont, yn 1816 er mwyn sefydlu'r achos annibynnol yn Aberystwyth. Er hynny, dyma'r tro cyntaf i'r ddwy eglwys rannu gweinidog mewn dwy ganrif. Cyfeiriodd hefyd at rai o weinidogion diweddar Bethel gan anfon cyfarchion yn arbennig at y Parchedig Irfon Evans a Guto Prys ap Gwynfor.

Dangoswyd fideo hyfryd o rai o blant yr Ysgol Sul yn canu emyn o gyfarchiad i Gwilym ac Alex. Ffilmiwyd y plant yn eu cartrefi a golygwyd y cyfan gan Mair Nutting.

Cafwyd cymorth parod gan sawl un o ardal Tal-y-bont gyda Falyri Jenkins yn cyfeilio i'r emynau, a Rhys Huws yn cyfieithu ar y pryd i'r rhai di-Gymraeg. Braf hefyd oedd gweld dau o Dal-y-bont yn stiwardio wrth y drysau wrth i'r gynulleidfa gyrraedd, sef Megan Mai a Gwyn Jenkins.

Bydd Gwilym yn pregethu yn Bethel, Tal-y-bont fore Sul 21ain Tachwedd lle bydd cyfle i'w groesawu am y tro cyntaf ers iddo gael ei ordeinio.

*PhD*

# Cletwr

Yn gyntaf, rhaid imi ymddiheuro i unrhyw un sydd wedi dod i Caffi Cletwr yn ddiweddar, gan ddisgwyl cael dishgled! Yn anffodus mae'r creisis staffio wedi gwaethygu. Roeddem yn obeithiol y byddai modd cynnig o leiaf gwasanaeth tec-awê yn ystod yr wythnos, ond mae hyd yn oed hyn yn amhosibl ar hyn o bryd, felly rydym wedi cymryd y penderfyniad anodd iawn i gau'r caffi yn gyfan gwbl dros dro, wrth i ni geisio datblygu cynllun a gweledigaeth am sut fydd y caffi yn gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r caffi wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Bu brecwastau Jane yn chwedlonol. Ond mae Jane bellach wedi ymddeol, a nifer sylweddol o'n staff a gwirfoddolwyr wedi symud i feysydd newydd, felly dyma gyfle inni ail-feddwl pwrpas y caffi o safbwynt y gymuned. Pa fath o gaffi sydd angen nawr? Oes modd rhedeg rhywbeth sydd angen llai o staff? (Mae angen saith o leiaf i gynnig gwasanaeth llawn dros y penwythnos ar haf).

Rydyn ni eisiau eich cyngor a'ch cymorth. Pa fath o gaffi ydych chi eisiau? Pa fath o ddigwyddiadau ydych chi am eu mynychu? Pethau yn ystod y dydd fel "Clonc a Gwau"? Ydych chi'n chwilio am jobyn lleol? Rydym angen staff newydd yn y caffi ar gegin. Oriau hyblyg, cyflog byw. Ffansi bod yn chef? (Darperir het ffansi - a gweddill y wisg unffurf)

Wrth gwrs, mae'r Gofid Mawr yn sail nifer o'n hanawsterau, ac fel rydyn ni i gyd yn gwybod, mae'n bell o fod ar ddiwedd eto. Cawsom noson fendigedig yn ddiweddar yn y caffi gyda bwyty pop-up Fegan Sue, ond erbyn hyn, gyda'r cynnydd yn y nifer o achosion yn lleol, rydym wedi penderfynu canslo pethau tebyg tu mewn, ond bydd pop-ups yn parhau fel tecawês. Dydd Gwener 13eg o Dachwedd, bydd ein ffrindiau hyfryd o Syria yn ymuno unwaith eto, gyda'u bwyd blasus. Manylion archebu ar ein gwefan.

Ond, "Daw eto haul ar fryn" - tra bod y caffi ar gau mae mwy o le inni arddangos ein stoc siop, ac mae'r tîm wedi bod yn prysur baratoi ein danteithion Nadolig. Does dim angen prynu anrhegion Nadolig unrhyw le ond yn Cletwr eleni! Rhywbeth at ddant pawb, yn arbennig ein hamperi o gynnyrch Cymreig.

Felly, anfonwch eich syniadau am y caffi atom cyn gynted ag y bo modd (a'ch CVs os ydych am swydd neu am wirfoddoli!)

NC

## BROABER 360

Helo bawb, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Mae 'di bod yn fis prysur arall draw ar BroAber360, hefo straeon diddorol yn cael ei bostio gan drigolion gogledd Ceredigion, gan gynnwys blog byw o Eisteddfod CFFI Ceredigion gan aelodau'r clybiau. Dyma yw fy ngholofn olaf i'r papur gan i mi dderbyn swydd newydd. Diolch i bawb sydd wedi helpu hefo'r wefan - o ddarllen, i greu, i rannu cynnwys. Hefyd, diolch i Gwyn am fod yn gyswllt rhyngddod a'r papur. Edrychaf ymlaen at ddarllen Papur Pawb am flynyddoedd i ddod!

*Dan Johnson*

[Gol. pob dymuniad da i Dan yn ei swydd newydd]

## Grant Mayhew Ltd


GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



**01970 832772 / 07846 255881**  
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



# Portreadau Arvid



Mae'n briodol iawn ein bod yn cynnwys y portread hwn o Barry Morgan, yn y gyfres o ffotograffau trawiadol gan Arvid Parry-Jones, gan iddo ddathlu penblwydd arbennig iawn ym mis Hydref.

Tynnwyd y llun yn Mehefin 1983 pan oedd Barry yn anterth ei yrfa fel cricedwr gyda tîm criced Tal-y-bont, a cheir y sylwadau canlynol yn yr erthygl, a luniais i gyd-fynd gyda'r llun, pan oeddwn innau hefyd yn aelod o dîm criced y pentref:

'Yn draddodiadol mae gan bob tîm criced pentre o leiaf un bowliwr cyflym. Fel arfer, mae'n ŵr mawr cryf a ffyrnig yr olwg sy'n dychryn pob batiwr anffodus sy'n ei wynebu. Mae gan dîm criced Tal-y-bont y math hwn o fowliwr hefyd ond er bod Barry Morgan yn edrych y rhan ac yn un o fowlwyr cyflyma'r cylch, mae'n bell o fod yn ffyrnig ac ymosodol o ran cymeriad. I'r gwrthwyneb: mae Barry yn ŵr rhadlon diymhongar sy'n barod ei ffafr bob amser a go brin felly ei fod yn ffitio'n union i'r traddodiad.

Ganed Barry yn Farnborough, Hampshire, ac fe ddechreuodd chwarae criced i glwb pentre o'r enw Yately pan yn 13 oed. Ar ôl gadael ysgol aeth i'r Coleg yn Aberystwyth gan chwarae i dîm cynta'r Coleg. Dewiswyd ef hefyd i chwarae dros dîm Prifysgolion Cymru. Daeth i fyw i Dal-y-bont wyth mlynedd yn ôl ac y mae wedi ymgartrefu yma gyda'i wraig Denise ers tro bellach. Gan nad oedd tîm criced yn y pentref tan yn ddiweddar bu'n chwarae i sawl tîm yn yr ardal. Hefyd treulia llawer o'i amser hamdden yn pysgota ac yn reidio'i feic. Cymerodd ddiddordeb mawr yn nhîm criced y pentref pan sefydlwyd y clwb y llynedd. Bu'n un o hoelion wyth y tîm o'r cychwyn gan ddychryn llawer i fatiwr gyda'i fowlio cyflym a'i anel cywir. Yn ôl Barry, ei berfformiad gorau y llynedd oedd yn erbyn Dolgellau pan fowliodd 15 pelawd ac ildio 19 rhediad yn unig a chipio pedair wiced. Eleni, er iddo anafu ei fraich, mae wrthi eto yn creu anrhefn ymhlith batwyr y cylch.

... Mae tîm criced Tal-y-bont yn hynod o ffodus fod sawl bowliwr da yn byw yn y pentref ar hyn o bryd ond heb amheuaeth Barry yw'r gorau ohonynt. Fel un sydd wedi wynebu rhan fwyaf o fowlwyr cyflym yr ardal rhyw dro neu gilydd, gwell gennyf fod Barry ar fy ochr i ac nid yn fy ngwrthwynebu!

Dymunwn wellhad buan i Barry a Denise sydd wedi dioddef o anhwylder Cofid yn ddiweddar, a phenblwydd hapus i Barry, gan obeithio y bydd y llun yn dod ag atgofion melys iddo.

GJ

## Cerddor o fri

Braf yw clywed hanesion gan blant y pentref sydd wedi hedfan y nyth gymunedol. Mae Niamh O'Donnell, Maesnant, Talybont, yn ennill bywoliaeth mewn maes hynod gystadleuol. Dyma ychydig o'i hanes.

'Ar ôl graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, dechreuais chwilio am waith a chynlluniau cerddorol. Un ohonyn nhw oedd cynhyrchiad gan y BBC, sef It's My Shout, lle ysgrifennais y sgôr ar y gyfer y ffilm I Am One, a ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan Alexander Vlahos. Gallwch wyllo'r ffilm ar BBC Iplayer. Roedd gweithio efo tîm y ffilm yn anhygoel, a wnaeth y profiad agor drysau newydd i mi.

Ar ôl y prosiect yma, dechreuais i a dau gyfansoddwraig arall, Tayla-Leigh Payne a Dyfan Jones gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Theatr Cenedlaethol Cymru, sef Anfamol. Hon oedd y sioe gyntaf wnes i a Tayla weithio arni y tu fas i'r coleg, felly arweiniodd Dyfan ni fel prif cyfansoddwr/dylunudd sain er mwyn ein helpu i ddysgu'r broses. Roedd y cwmni'n groesawgar iawn, a roedd e'n bleser i weithio gyda nhw ac i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg unwaith eto.

Nawr, dwi'n ysgrifennu darn ar gyfer rhai aelodau'r Psappha Ensemble fel rhan o'r cynllun cerddorol Composing for... Dwi'n edrych ymlaen i weld ble dwi'n mynd nesaf a pha brosiectau newydd dwi'n mynd i gweithio arno!

Dyma'e linc i I am One ar BBC Iplayer:

<https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m0010f36/its-my-shout-short-films-from-wales-2021-4-i-am-one>



## Doniol

Aeth hen gwpwl tlodaidd yr olwg i mewn i gaffi ac archebu un pryd o fwyd sef byrger a sgłodion.

Pan ddaeth y bwyd fe dorrodd y gŵr y byrger yn ei hanner tra roedd ei wraig yn rhannu'r sgłodion yn ddau.

Mae perchennog yn caffi yn gweld hyn ac yn garedig iawn yn cynnig pryd arall iddynt am ddim.

"Na mae popeth yn iawn" meddai'r ddau "Ry ni'n rhannu popeth".

Mae'r wraig yn dechrau bwyta ei hanner hi tra mae'r gŵr ddim yn cyffwrdd ei ran ef.

Mae'r perchennog yn poeni am hyn ac yn holi'r gŵr.

"Ydi popeth yn iawn? Pam nad y' chi'n bwyta eich bwyd chi?"

Atebodd y gŵr: "Dwi'n disgwyl y dannedd".

## STORFA HUNAN FYNEDIAD



### UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH  
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703582

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

**MID WALES STORAGE**

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

# Atgofion Gohebydd

Gyda diolch derbynais y gwahoddiad caredig i rannu rhai atgofion am fod yn ohebydd *Papur Pawb* dros ardal Bont-goch. Bu'n ffrainc ac yn anrhydedd i gael dilyn Hilda Thomas, Cwmere, a wnaeth gyfraniad mor bwysig i'r papur ac i'r ardal gyfan mewn cymaint o ffyrdd. Pan symudodd Eirlys a minnau i fyw i Bont-goch yn 2002, ni fu neb yn fwy croesawgar na Hilda i ni fel teulu. Gwyddwn y byddai'n act anodd iawn i'w dilyn fel gohebydd lleol, ond ni allwn wrthod gair o berswâd gan fy nghyfaill Gwilym Huws, er iddo farcio sawl un o'm traethodau braidd yn galed pan oeddwn yn un o'i fyfyrwyr!

Roedd Gwilym yn gwybod bod gennyf ychydig o *form* ym myd papurau bro. Tra'n byw yn Nhregaron ar ganol y 1970au bum yn olygydd cyntaf *Y Barcud*, ac ar ôl symud i Bow Street yn 1979 ag Aberystwyth yn 1987 bum yn cynnig help fel golygydd misol achlysurol i'r *Tincer* ac i'r *Angor*. Serch hynny, roeddwn braidd yn betrusgar wrth gymryd awenau Hilda, gan wybod y byddai'n anodd cynnal ei safonau uchel. Ac roedd ei hadnabyddiaeth o'r ardal a'i phobl gymaint yn well na mi.

Bu'r cefndir mewn papurau bro, yn arbennig profiadau Tregaron, yn werthfawr iawn wrth i mi ymgymryd â'r gwaith o fod yn ohebydd Bont-goch. Rwy'n cofio tri digwyddiad arbennig yn ystod fy nghyfnod fel golygydd *Y Barcud* rhwng 1976 a 1978 a fu'n wers i bob gohebydd a golygydd. Ceisiais ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

Un mis, yn nyddiau cynnar *Y Barcud*, roedd gohebydd lleol un o'r pentrefi wedi adrodd fod dau berson o'r ardal yn yr ysbyty, a bod angen dymuno'n dda iddynt. Ond, ar y funud olaf, cefais alwad ffôn gan y gohebydd y dweud: 'Gwell i ti beidio cynnwys enw – fe'i galwn yn Joe Bloggs - yn y papur, gan ei fod yn wael iawn, ac yn debygol iawn o fod wedi marw cyn i'r *Barcud* ddod mas Dydd Gwener nesaf'. Ac felly y bu -gadawyd ei enw allan. Ond cafodd Joe wellhad gwyrtiol, gan fynd ymlaen i gwyno wrth y gohebydd lleol nad oedd ef wedi cael unrhyw sylw yn y papur, 'a minnau yn lot fwy tost na'r boi arall o'r pentref a enwyd yn *Y Barcud*! Trefnwyd i roi dymuniadau gorau iddo yn y rhifyn dilynol.

Cofiaf achlysur arall. Arferwn fynd am ddiod bach i'r *Talbot* gyda rhai ffrindiau ar y nos Wener, a byddem yn manteisio ar y cyfle i werthu y rhifyn diweddaraf. Roedd rhifyn newydd o'r papur wedi ymddangos y prynhawn hwnnw, gyda stori flaen yn cofnodi ymdrech leu un o fechgyn y clwb rygbi i redeg pellter mawr i godi arian i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog yn dilyn niwed gan storm. Ond fe'i cefais hi yn blwmp ac yn blaen gan un o'r selogion lleol: 'Co fe Robert Maxwell, Tregaron', meddai gyda gwên fawr gan ychwanegu: 'Tra bod pob papur newydd yn y byd yn cario stori flaen am *Operation Julie* [y cyrch cyffuriau mwyaf a welwyd erioed tan hynny], wyt ti yn dewis rhoi sylw i'r Urdd!' Tynnu coes caredig oedd y gŵr dan sylw yn ei ffordd arferol, ond efallai fod ganddo bwynt ein bod yn rhy betrusgar i gario newyddion caled mewn papurau bro.

Ac un tro arall, ac roedd hwn yn brifo, cefais fenthg llun hynafol i gynnwys yn y papur. Awgrymwyd gan y benthygiwr, ychydig yn betrus, mai efallai llun o ddosbarth Ysgol Sul Capel Bwlchgwynt, sef y capel Methodist lleol, oedd dan sylw. Roeddem yn hoffi derbyn a chynnwys hen luniau, felly mewn ag ef i'r *Barcud* – gyda'r capsiwn fel a awgrymwyd, sef 'Ysgol Sul Bwlchgwynt'. Os do fe, fe ddaeth person nid anenwog i'r drws ymhenn wythnos i ddweud ei bod yn warthus fy mod wedi rhoi capsiwn anghywir i'r llun, a dylai pobl fel fi gymryd fwy o ofal y tro nesaf, gan fod aelod o'i theulu yn y llun! Llun dosbarth Blaenoriaid Bwlchgwynt oedd y criw barfog, ac nid llun o ddosbarth yr Ysgol Sul. Yn sicr, roedd y gwrthrychau yn edrych yn griw ffyrnig a barfog na fydddech yn mentro dadlau gyda nhw! Ymddiheuriad arall!

Wrth ddymuno'n dda i Cathryn fel gohebydd lleol newydd Bont-goch, nid fy lle i yw rhoi cyngor iddi. Ond efallai y gall bob gohebydd a golygydd ddysgu gwersi oddi wrth y digwyddiadau hyn. Fel canllaw cyffredinol, gyda gwarchod data a phreifatrwydd yn poeni pobl gymaint yn fwy nag yr oedd yn 1976, efallai ei bod yn syniad da i sicrhau caniatâd y teuluoedd dan sylw cyn cyhoeddi newyddion amdanynt yn y papur. Yn yr un modd, gyda lluniau hen a newydd, mae cywirdeb ffeithau, a cheisio dod o hyd i bob enw yn werthfawr iawn, nid yn unig i ddarllenwyr presennol, ond i'r sawl a fydd yn edrych ar ôl-rifynnau o'r papur mewn blynyddoedd i ddod. Ac yn olaf, o ran stori tudalen flaen – dylid ceisio bod yn amserol, perthnasol a gafaelgar. Er tegwch â *Phapur Pawb*, mae hynny yn un o gryfderau mawr y papur erioed.

Richard E. Huws



## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

### Cyfarfod Misol Mis Hydref 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol Mis Hydref yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ar Nos Iau, 4 Tachwedd 2021, gyda saith o'r Cyngorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Ymddiheurodd y Clerc fod y cyfarfod yn wythnos yn hwyrach na'r arfer oherwydd ei salwch yr wythnos cynt. Cychwynodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Megan Mai yn cynnig llongyfarchiadau i Cyng Enoc Jenkins a'i wraig, Margaret, ar enedigaeth ei hŵyr cyntaf, Sianco John James.

### Swydd y Clerc

Cadarnhaodd Cyng Megan Mai mi fydd hysbyseb addas yn ymddangos mewn nifer o papurau bro lleol yn yr ardal ac fod Un Llais Cymru wedi gyrru manylion y swydd i Cyngorau Cymuned eraill yng Nghanolbarth Cymru. Cadarnhawyd mi fydd y Clerc presennol, Mr Rab Jones, yn parhau yn y swydd nes bod Clerc newydd wedi cael ei cyflogi.

### Cae Bach Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad gan Cyng Nia Richards am gwaith nifer o wirfoddolwyr yn y Cae Bach yn tacluso a phaentio ond mynegodd siom ei fod hi ddim wedi cael llawer o ddiddordeb gan pobl yn fodlon gwasanaethu ar yr Is-Bwyllgor newydd ar gyfer trafod Prosiect y Cae Bach. Ychwanegodd Cyng Emyr Davies fod popeth yn daclus yn Cae Chwarae Bont-goch.

### Mynwent Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd a'r Clerc ynglyn y sefyllfa ddiweddaraf gyda mynwent Tal-y-Bont. Gobeithir trefnu gwaith i wastadu y darn tir newydd yn y fynwent cyn cysegru y tir ar gyfer claddedigaethau. Cytunwyd mi fydd yn fanteisiol i ymestyn y canllaw i lawr ochr y fynwent ac fod angen arwyddion newydd ar gyfer y ddau mynediad i'r fynwent.

### Sefyllfa Coronafeirws

Yn absenoldeb y Cyngorwyr Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, darllenodd y Cadeirydd ddatganiad oddi wrth Ellen ar y sefyllfa diweddaraf gyda coronafeirws. Mae'n glir fod pryder yn parhau ynglyn y nifer o achosion coronafeirws yn y Sir ac fod yn bwysig fod pawb yn parhau i fod yn ofalus.

### Seremoni Sul y Cofio

Ail-drafodwyd y trefniadau tuag at Sul y Cofio. Gan clywed y pryder sydd yn parhau ynglyn y sefyllfa coronafeirws cytunwyd nad oedd yn addas i gynnal gwasanaeth yn y Neuadd Goffa ac felly mi fydd y seremoni yn cael ei chynnal y tu allan i'r Neuadd am 10:45yb ar Sul y Cofio, 14 Tachwedd 2021.

### Seremoni Goleuo'r Nadolig

Unwaith eto, gan clywed y pryder sydd yn parhau ynglyn â sefyllfa coronafeirws cytunwyd nad oedd yn addas cynnal gwasanaeth Seremoni Goleuo y Nadolig eleni yn y Neuadd Goffa ac felly mi fydd seremoni bychan yn cael ei cynnal y tu allan i'r Neuadd ar Nos Iau, 9 Rhagfyr 2021. Gobeithir mi fydd hefyd yn bosib cael Coeden Nadolig ar y Patsyn Glas unwaith eto.

**Rab Jones**, Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180**

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

### CLERC A SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL I'R CYNGOR

Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser  
(tua 34 awr y mis) uchod.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â'r Cadeirydd  
Megan Mai, Cadeiryddcmm@gmx.com

Dyddiad Cau: 28 Tachwedd 2021

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar sgiliau cyfrifiadurol a chyllidol cadarn ac mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol i'r swydd.



## CFFI Tal-y-bont



Cafwyd sawl gweithgaredd difyr iawn yn ystod mis Hydref - diolch i'r arweinwyr am drefnu.

Roedd yna dipyn o gystadlu brwd yn y noson Tipit, a drefnwyd gan Mair, gyda chymorth Carwen Pantyperan. Llongyfarchiadau i Gwawr, Nel a Cari ar ennill pob rownd, ac yna'r bencampwriaeth.

Yr un oedd y brwdfrydedd pan gafwyd noson Tasgfeistr ar y 12fed, sef heriau tebyg i'r hyn sydd i'w gweld ar y rhaglen deledu boblogaidd, 'Taskmaster'. Roedd llawer o grafu pen er mwyn cwblhau'r heriau - go dda, Lowri, am achosi sawl penbleth ddifyr! Mae mis Hydref bob amser yn eithriadol o brysur i aelodau'r Clwb, wrth i ni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod flynyddol.

Braf oedd cael mynychu'r digwyddiad ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar nos Iau 28 Hydref a dydd Sadwrn 30 Hydref. Cael a chael oedd hi y byddai digon o aelodau ar gael i gystadlu gyda'r Meimio, wrth i Covid whare wic a whiws. Braff dweud bod pawb a fu'n sal wedi dod drosti'n ddidrafferth. Er gwaetha'r cyfnod byr o ymarfer, fe fwynhaedd y criw dethol y cystadlu'n fawr - a llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog a ddaeth i'r brig yn y gystadlueth honno. Diolch yn fawr iawn i Elen Pencwm am drefnu'r caneuon ac am hyfforddi'r criw. Roedd yna sawl unigolyn yn cystadlu hefyd, ac fe serenodd Cadi a Beca Williams drwy gydol yr wyl - llongyfarchiadau i Cadi ar ddod yn 3ydd yn yr Unawd Alaw Werin dan 28 oed, ac am ddod yn gydradd 3ydd gyda'i chwaer Beca yn y gystadlueth canu Deuawd. Fe enillodd Cadi'r dwbl hefyd - yr Unawd allan o Sioe Gerdd a'r gystadlueth Canu Emyr. Diolch yn fawr iawn i chi'ch dwy am chwifio'r faner dros y clwb a llongyfarchiadau ar eich llwyddiant arbennig.

*Mari Gibson*



### LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

[www.llaethjenkinsmilk.co.uk](http://www.llaethjenkinsmilk.co.uk)

07813 827 712

@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn  
Cletwr,  
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerriecaranau Llefaf

## Cymdeithas y Chwiorydd



*Eiriona yn cyflwyno blodau i Myfanwy*

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 12 Hydref, a chafwyd dathliad i nodi deng mlynedd ar hugain ers ailgychwyn y Gymdeithas gan Myfanwy Rowlands a'r ddiweddar Nesta Evans ym mis Hydref 1991. Croesawyd yr aelodau gan Eiriona Metcalfe, ac yna adroddodd Carys Briddon ychydig o hanes cynnar y Gymdeithas a ffurfiwyd i ddechrau yn y 1950au, yn ôl yr wybodaeth a gafwyd mewn rhifynnau o Lloffion Llangynfelyn o'r cyfnod hwnnw. Cafwyd hanes yr ailgychwyn yn 1991, ar ôl toriad o rai blynedd, gan Myfanwy Rowlands, a nododd eu bod yn disgwyl rhyw hanner dwsin i fynychu'r cyfarfod cyntaf, ond roedd yno dros ugain o wragedd. Mae'r un drefn o wahodd siaradwyr diddorol i'r cyfarfodydd a gorffen gyda phaned o de yn dal i fodoli ers y cyfarfod cyntaf hwnnw.

Cyflwynodd Eiriona dusw o flodau i Myfanwy fel gwerthfawrogiad o'i chyfraniad a'i phresenoldeb yn y Gymdeithas am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mwynhawyd paned a lluniaeth wedi ei baratoi gan Meinir Fleming i orffen y cyfarfod.

## Y Gair Olaf



Cafodd Cynhadledd COP 26 lawer o sylw'n ddiweddar wrth iddynt geisio cytundeb ar sut i ddelio â newid hinsawdd. A wnaiff cytundeb sicrhau dyfodol gwell i'r blaned?

Mae'r sefyllfa gymhleth angen dealltwriaeth o'r holl ffactorau er mwyn medru gweithredu'n effeithiol. Prin ydi gwleidyddion sy'n arbenigwyr yn y maes hwn. Mae angen gofyn am gyngor arbenigwyr.

Mae gwyddonwyr amgylcheddol wedi rhagweld y drychineb amgylcheddol sy'n ein hwynebu ers degawdau - yn gywir ymddengys. Prin yw'r gwyddonwyr nad sy'n credu fod problem. Mae llawer yn gweithio ar ddatrysiadau ymarferol ers blyneddau.

Beth ddywed yr economegwyr? Darlun amrywiol. Mae dealltwriaeth llawer ohonynt yn dibynnu ar gredu mewn model ble mae tyfiant economaidd yn ddiderfyn. A hynny ar blaned cyfyngedig ei maint ag adnoddau naturiol! Er hynny, bu eraill yn darogan, ers degawdau hefyd, na all y model economaidd poblogaidd presennol barhau. Credant fod rhaid cydnabod y cyfyngiadau a sefydlu trefn gynaliadwy. Un o'r arloeswyr yn y maes oedd y diweddar Athro Leopold Kohr - a dreuliodd gyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth a chyhoeddi nifer o lyfrau ar y pwnc. Coffa da am fynychu ei ddosbarthiadau nos.

Ei safbwynt oedd fod angen i cymaint ag sy'n bosib o'n gweithgareddau fod yn lleol. Codi cymaint o fwyd, siopa a gweithio'n lleol, mewn cymunedau - er enghraifft. A llywodraethu cymaint ag sy'n bosib yn lleol mewn cymunedau. Synnwyr cyffredin, fe dybiech.

A wnaeth y profiad o ddelio â'r pandemig COVID-19 berswadio'n harweinwyr am bwysigrwydd gwrandao ar arbenigwyr?

Does ond gobeithio.

*Iolo ap Gwynn*



## Pwy yw'r Hwch Ddu Gwta?



Hwch oruwchnaturiol yn llên gwerin Cymru a gysylltir â Nos Galan Gaeaf ywr Hwch Ddu Gwta. Yng Nghymru fei cysylltir yn bennaf â'r Gogledd-orllewin, yn enwedig Ynys Môn, ond ceir traddodiadau amdani yng Nghlwyd a Morgannwg yn ogystal. Yr arfer ar Nos Galan Gaeaf oedd cynneu coelcerthi mawr lle byddai pawb yn ymgynnull i wleda ac yfed a chael hwyl. Mae'n arfer sy'n deillio o gyfnod y Celtiaid a defodau sy'n gysylltiedig â gŵyl Samhain, a nodai ddechrau'r Flwyddyn Geltaidd, atgof gwan o hyn a geir yng nghoelcerthi Noson Guto Ffowc heddiw. Ond roedd yna ochr dywyll i'r miri. Credid bod yr Hwch Ddu Gwta yn ymrithio o wreichion olaf y goelcerth ac yn rhuthro ar ôl yr olaf i dael i'w bwyta. Yn ardal Mynydd Hiraethog, Clwyd, byddai pawb yn ei heglu hi adref gan weiddi,

'Adre, adre am y cynta: Hwch Ddu Gwta a gipior ola!'

Roedd y traddodiad yn arbennig o gryf ym Môn, hyd yn oed yn hanner cyntaf y 19g. Cedwir un fersiwn o'r rhigwm a genid yno:

'Hwch Ddu Gwta A Ladi Wen Heb ddim pen.

Hwch Ddu Gwta A gipio'r ola.

Hwch Ddu Gwta Nos Glan Gaea,

Lladron yn dwad Tan weu sana.'

Yn Arfon ar cylch credid bod yr Hwch Ddu Gwta yn eistedd ar ben y gamfa yn aros ei chyfle. Disgrifiar hynafiaethydd a chasglwr llên gwerin John Jones, Myrddin Fardd fel y byddai coelcerthi yn cael eu cynnu "ar uchelfannau amlwg" ac yna, "wedi i'r goelcerth losgi allan, a phan na byddai dim ond tywyllwch yn teyrnasu" byddai pawb yn gweiddi:

'Hwch ddu gwta Ar ben pob camfa

Yn nyddu a chardio Bob nos Glangau.

Nos Glangau Ar ben pob camfa,

Hwch ddu gwta Gipio yr ola.'

Sonnir hefyd am "Ladi wen / ar ben bob pren", a "Bwbach ar bob camfa". Mae'r cyfeiriad at "nyddu a chardio" yn atgoffa dyn o'r darlun o dduwies Ffawd yn gweu Tynged. Ar y Gororau roedd hi i'w gweld hefyd, gyda chynffon gron, yn ymdroelli ar ben y gamfa. Dilch i Ruth Jên am gyfeirio at chwedloniaeth mor ddifyr wrth iddi baentio ffenestr y siop yn ystod yr wythnos diwethaf.

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad

gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553



## Darllenwyr brwd

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd sirol ledled y Deyrnas Unedig yn cynnal her Sialens Ddarllen yr Haf i ddarllenwyr ifanc yn ystod misoedd yr haf ac er gwaethaf y pandemig doedd eleni ddim yn eithriad. Yn syml, cofrestru a darllen unrhyw chwe llyfr o ddewis y darlennydd yw'r dasg ac eleni y thema oedd Arwyr y Byd Gwylt, gyda rhestrau o lyfrau a gweithgareddau hwyliog ar themau amgylcheddol wedi eu trefnu i gydfynd gyda'r her. Dyma ambell un o ddisgyblion (a chyn-ddisgyblion) Ysgol Tal-y-Bont sef Rory a Alice Groves, Osian January-McCann a Maia Kerridge, yn derbyn eu medalau a thystysgrifau 'Her Ddarllen y Haf' yn Llyfrgell Machynlleth gan yr awdures Manon Steffan Ros gyda Leigh Munton - Prif Llyfrgellydd Llyfrgell Machynlleth. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!



'Dach chi'n siarad Cymraeg yn rhugl? Dach chi'n awyddus i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg?

Mae Siarad yn gynllun i helpu dysgwyr sy'n gallu cynnal sgwrs am fywyd pob dydd a sy eisau ymarfer. Dan ni'n chwilio am siaradwyr sy'n fodlon rhoi ychydig o'u hamser i'w helpu nhw feithrin hyder a defnyddio mwy o Gymraeg. Mae pob gwirfoddolwr dros 18 oed, yn cwrdd mewn llefydd cyhoeddus neu ar Zoom. CHI sy'n dewis lle a phryd dach chi'n cyfarfod. Dyma ffordd ymarferol, hwylus, i helpu

pobol sy'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ddod yn rhugl.

Mae cynllun **Siarad** yn gynllun cenedlaethol sy'n rhedeg ers 4 blynedd. Daeth y syniad yn wreiddiol o Gatalunya, lle mae miloedd o siaradwyr Catalaneg yn paru efo unigolyn sy'n dysgu'r iaith, er mwyn eu helpu i ddod yn rhugl drwy ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Dan ni'n gofyn i bobol ymrwymo i siarad efo unigolyn sy'n dysgu am **ddim ond 10 awr** o fewn blwyddyn. Chi, y siaradwr rhugl sy'n penderfynu lle, pryd a sut dach chi'n cyfarfod – mewn cymdeithas Gymraeg, mewn caffi neu dafarn, wrth fynd am dro rhywle cyhoeddus, ar-lein – neu gyfuniad o'r rhain.

Y cwbl sy raid i chi wneud ydy cofrestru ar [www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru), (mi gewch chi lawer mwy o wybodaeth am y cynllun ar sleid SIARAD), dewis eich darparwr lleol, a byddan nhw'n cysylltu efo manylion cyswllt dysgwr fydd, gobeithio, yn eitha tebyg i chi o ran diddordebau, oedran ac argaeledd.

Llynedd mi gofrestrodd dros 250 pâr dros Gymru er gwaethaf pandemig, ond roedd 'na restr aros o ddysgwyr ym mhob ardal gafodd eu siomi gan bod na ddim digon o wirfoddolwyr. Nhw fydd yn cael blaenoriaeth eleni. Mae'r dysgwyr yma i gyd yn lefel Canolradd neu Uwch, felly maen nhw i gyd yn medru cynnal sgwrs. Does dim angen i chi boeni am safon eich Cymraeg – nid tiwtor ydych chi, ond siaradwr naturiol sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol.

Mi fydd na ambell ddigwyddiad cenedlaethol rhithiol lle byddwch chi'n cael gwahoddiad, sy'n rhoi cyfle i gychwyn sgwrs yn eich cyfarfod nesa ella.

Mi fasen ni'n gwerthfawrogi'n fawr tasech chi'n ystyried dod yn rhan o'r cynllun.

Ewch ar y wefan i weld mwy am y cynllun, a gobeithio'n wir gwnewch chi ystyried cofrestru. Os oes gynnach chi gwestiynau, croeso i chi fy e-bostio ar [eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru](mailto:eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru)





## Gwobr arall i'r Cletwr!

Rydyn ni ar ben ein digon yma yn y Cletwr ar ôl clywed bod ein gerddi wedi ennill Cystadleuaeth Pollin-8 mis Medi Bee The Change yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn ar gyfer gerddi cymunedol! Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, "Roedd ein beirniaid wrth eu boddau gyda sut mae gwirfoddolwyr Cletwr wedi troi beth allai fod yn ardal goncrit ddiflas y tu allan i'r adeilad yn fan lle y gall cacwn a phobl fel ei gilydd elwa ar yr amrywiaeth hardd o blannu drwy gydol y tymhorau".

Yn wir, mae'n anhygoel gweld cymaint o gacwn yn gloddesta ar ein blodau Mihangel, blodau'r haul a thafod yr ych ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd pobl eraill yn cael eu hysbrydoli i blannu amrywiaeth o flodau yn eu gerddi i sicrhau porthiant i bryfed peillio yn ystod pob tymor. Beth am addo i 'fod yn rhan o'r newid' drwy fynd at: <https://www.bumblebeeconservation.org/beethechange/> Mae 'na lawer o adnoddau ar y wefan i'ch helpu chi i blannu er budd ein peillwyr annwyl. I weld adnoddau'r Ymddiriedolaeth sydd ar gael yn y Gymraeg, ewch at: <https://www.bumblebeeconservation.org/resources-in-welsh/?lang=cy>



**FFAIR GREFFTAU  
NADOLIG**

**Crefftau lleol, pop-up bwyd, hwyl**

**03.12.2021 15.00 - 19.00**

01970 832 113  [events@cletwr.com](mailto:events@cletwr.com)

**Cletwr**

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ



[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
m.rowlands1958@gmail.com

**Michael Rowlands**  
**Adeiladwr**

**01970 832 732 • 07929 003 576**

## Arddangosfa Arlunydd



Yn Oriel Ffin y Parc, Llanrwst ym Medi a Hydref, cynhaliwyd arddangosfa o waith newydd gan yr artist lleol Pete Monaghan, Tal-y-bont. Nid dyma'r tro cyntaf i Pete dderbyn gwahoddiad i arddangos ei waith yno ac roedd y sioe newydd yma'n dathlu ei benblwydd yn 60 oed. Fe'i ysbrydolir gan bensaerniaeth werinol Gymreig ac ymysg ei beintiadau yn yr oriel roedd nifer o adeiladau a ffermydd o'r ardal hon megis Tŷ Hen (uchod), Carreg Cadwgan (isod), Caer Arglwyddes, Blaen Ceulan ac Allt Goch y Mynydd.

Yn rhaglen yr arddangosfa dwedir fod Pete yn dathlu prydferthwch ac urddas yr adeiladau a'r pethau o'n hamgylch. Nid syndod felly i'r cyfan gael eu gwerthu!



## Geirfa Dysgwyr

Arddangosfa – Exhibition. Arhosfan bws – Bus stop. Brwd – Keen. Cerddor – Musician. Llawdriniaeth – Operation. Ordeinio – Ordination

**YMDDIHEURIADAU (APOLOGIES)** am y **CAMGYMERIAD (MISTAKE)** yn y **RHIFYN DIWETHAF (LAST ISSUE)** o Bapur Pawb. **CLIMATE** yw ystyr **HINSAWDD** nid **ENVIRONMENT**. **AMGYLCHEDD** yw **ENVIRONMENT**.



**Alun Davies**  
**Contractiwr Trydanol**

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** [alun.davies142@btinternet.com](mailto:alun.davies142@btinternet.com)



# CHWARAEON



Dan 10 – Tal-y-bont Typhoons (Mark Evans) a Tal-y-bont Tornadoes (Oli Ankin)

## Ieuenctid Tal-y-bont

Wedi 19 mis hir mae chwaraewyr pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont wedi ailgychwyn chwarae gemau ym Mhenweddig a Choedlan y Parc. Mae'r aros wedi bod yn hir iawn nid yn unig i'r chwaraewyr ond hefyd i'r hyfforddwyr sydd wedi gweld eisiau'r boreau Sadwrn yn trefnu'r timau ym Mhenweddig. Rydym wedi bod yn ffodus iawn yn ystod y 19 mis diwethaf i dod o hyd i gae yn Nhal-y-bont er mwyn cynnal sesiynau hyfforddi. Mae llawer o wirfoddolwyr wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau cynnal rhyw fath o bêl-droed ieuenctid, hyd yn oed os mai hyfforddi yn unig oedd hynny. Mae'r chwaraewyr wedi dechrau'r tymor newydd gyda pherfformiadau rhagorol gydag ychydig o'r grwpiau oed mewn fformat newydd. Ffurfiwyd tîm dan 8 newydd dros yr haf gyda Glen Robson yn hyfforddi ac maen nhw wedi ymgartrefu'n dda. Mae'r timau dan 10 a hyfforddir gan Mark Evans ac Oli Ankin hefyd wedi gwneud dechrau gwyach gyda'r ddau dîm yn gorfod wynebu tîmau hŷn yn yr adran hon. Mae'r chwaraewyr wedi profi'n fwy nag abl i ddal eu tir yn erbyn y gwrthwynebwyr a chael profiad gwyach. Gyda 22 chwaraewr yn y garfan hon mae'n dipyn o dasg i sicrhau tegwch i bob chwaraewr ond hefyd yn braf iawn gweld cymaint o blant yn chwarae i'n timau iau lleol.

Mae timau hŷn dan 10 a hyfforddir gan Kam Rahman & Dean Vaughan hefyd wedi perfformio'n wych ac wedi gorfod slotio chwaraewyr newydd i mewn yn ddiweddar. Wedi dweud hynny, mae'n edrych fel bod y chwaraewyr newydd yma wedi ymgartrefu'n dda iawn ac yn mwynhau. Erbyn hyn mae dros 25 o chwaraewyr yn y grŵp hwn sy'n golygu bod bron i 50 o blant yn chwarae yn yr adran dan 10 yn unig, ystadegyn anhygoel i bentref bach fel Tal-y-bont!

Tom Cosson sy'n hyfforddi'r tîm dan 12 ac maen nhw wedi symud i oed ysgol uwchradd ac yn chwarae gemau yng Nghoedlan y Parc. Mae chwaraewyr newydd wedi'u hychwanegu at y garfan hon hefyd ac maen nhwythau wedi cael dechrau gwyach i'r tymor. Wle'r tîm yn eu cit newydd a noddwyd yn garedig iawn gan gaffi a siop cymunedol Cletwr.



Dan 12 – Teigrod Tal-y-bont (Tom Cosson)



Dan 8 – Tal-y-bont Toucans (Glen Robson)

*Gwasanaeth argraffu diguro*

Holwch Paul  
am bris!  
paul@yloffa.com  
01970 832 304

**yloffa**  
Talybont  
Ceredigion  
SY24 5HE  
www.yloffa.com

Rhaid diolch i'r tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n dawel y tu ôl i'r llenni ond sydd wedi cyfrannu'n helaeth at lwyddiant y clwb yn ystod y cyfnod anodd diweddar.

Mae Patrick Finney wedi cofrestru pob chwaraewr ar y system COMET, ein trysorydd Mark Longman sydd wedi bod yn sefyll mewn tywydd gwlyb ac oer yn cofrestru chwaraewyr a rhieni sy'n mynychu hyfforddiant at ddibenion rheoleiddio Covid a hefyd Tom Cosson sydd, er gwaethaf y ffaith bod ganddo dîm ei hun i hyfforddi, wedi gwneud gwaith rhagorol dros ben wrth sicrhau bod timau wedi'u trefnu a bod rheolau a rheoliadau Covid wedi'u dilyn yn iawn yn unol â reolau CBDC.

Erbyn hyn, mae Paul Burrell yn hyfforddi y tîm dan 14 a maen nhw'n chwarae eu gemau ym Mlaendolau. Mae Paul wedi denu nifer o chwaraewyr i greu tîm newydd. Felly mae'n ymddangos fod pethau'n argoeli'n dda i bêl droed ieuenctid yn Nhal-y-bont ar gyfer y dyfodol.

Mark Evans